

Strategaeth Gymunedol Integredig
I Sir Gaerfyrddin
2011 - 2016


Dangosyddion Poblogaeth

Integrated Community Strategy
For Carmarthenshire
2011 - 2016

Population Indicators



Bwrdd Gwasanaeth Lleol Sir Gâr
Carmarthenshire Local Service Board





Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Os oes angen y wybodaeth hon arnoch
mewn print Bras, Braille, ar dâp sain neu
ddisg, cysylltwch â'r
Tîm Polisi Corfforaethol,
Neuadd Y Sir, Caerfyrddin
01267 224914
cynllunioecymunedol@sirgar.gov.uk
www.partneriaethsirgaerfyrddin.org.uk

If you require this information in large print,
Braille, on audio tape or disk, please contact
the
Corporate Policy Team,
County Hall, Carmarthen
01267 224914
communityplanning@carmarthenshire.gov.uk
www.thecarmarthenshirepartnership.org.uk

Canlyniad 1: Bod pobl yn Sir Gaerfyrddin yn iachach

Mae'r dangosyddion poblogaeth canlynol yn mesur perfformiad y sir o ran y Canlyniad uchod:-

Disgwyliad oes

Canran yr ysmygwyr

Nifer yr achosion o ordewdra

Canran y boblogaeth sy'n gorfforol egnïol

Cyfradd marwolaethau


Cyfradd marwolaethau babanod

Canran y babanod pwysau geni isel


Nifer y rhai sy'n cael brechiadau (plentyndod a fflwi)

Lefel digartrefedd

Tai sy'n iach ac yn ddiogel



Ffynhonnell: Data Arsyllfa Iechyd Cyhoeddus Cymru, gan ddefnyddio data cyfartaledd 3 mlynedd o'r Swyddfa Ystadegau Gwladol (ADDE & MYE)



Ffynhonnell: Data Arsyllfa Iechyd Cyhoeddus Cymru, gan ddefnyddio data cyfartaledd 3 mlynedd o'r Swyddfa Ystadegau Gwladol (ADDE & MYE)

Y stori tu ôl i'r ffigyrau

Mae disgwyliad oes yn fesurydd pwysig ar gyfer crynhoi iechyd y boblogaeth oherwydd gellir ei ddefnyddio i gymharu cyfraddau marwolaeth o fewn gwlad a rhwng gwahanol wledydd dros amser. Defnyddir y term i gyfeirio at nifer y blynyddoedd y mae disgwyl i faban newydd enedig fyw ar gyfartaledd.

Yn ôl y Swyddfa Ystadegau Gwladol (2011) mae disgwyliad oes babanod newydd anedig yn y Deyrnas Unedig wedi cyrraedd ei lefel uchaf erioed ar gyfer dynion a menywod. Gall bachgen newydd anedig ddisgwyl byw am 77.7 o flynyddoedd a merch newydd anedig am 81.9 o flynyddoedd. Un o'r prif resymau dros y cynnydd hwn mewn disgwyliad oes yw bod rhagor yn goroesi babandod a phlentyndod cynnar.

Mae menywod yn dal yn byw'n hwy na dynion, ond mae'r bwlch wedi bod yn cau. Tros y 27 mlynedd diwethaf mae'r bwlch rhwng y ddau wedi lleihau o 6.0 blynedd i 4.2 blynedd (2011). Yn Sir Gaerfyrddin y disgwyliad oes adeg genedigaeth yw 81.3 o flynyddoedd i fenywod a 77.3 o flynyddoedd i ddynion. Mae'r gyfradd hon yn adleisio'r gyfradd genedlaethol ar gyfer Cymru.

Outcome 1: People in Carmarthenshire are healthier

The following headline population indicators will measure how well the County is doing within this Outcome :-

Life Expectancy

Proportion of the population who are physically active

Proportion of low birth weight babies

Level of homelessness

Percentage of smokers


Mortality rate

Uptake of immunisation (childhood and flu)


Housing which is healthy and safe

Prevalence of obesity.

Infant mortality rate



Data provided by the Public Health Wales Observatory, using 3 year rolling average data from ONS (ADDE & MYE)



Data provided by the Public Health Wales Observatory, using 3 year rolling average data from ONS (ADDE & MYE)


Story behind the baselines

Life expectancy is an important summary measure of population health as it can be used to compare death rates within and between countries over time. The term is used to refer to the average number of years of life that a newborn infant is expected to live.


According to the Office for National Statistics (ONS, 2011) life expectancy at birth in the UK has reached its highest level on record for both males and females. A newborn baby boy can expect to live 77.7 years and a newborn baby girl 81.9 years. Much of this increase in life expectancy is attributed to better survival in infancy and early childhood.

Females continue to live longer than males, but the gap has been closing. Over the past 27 years the gender gap has narrowed from 6.0 years to 4.2 years (ONS, 2011). In Carmarthenshire life expectancy at birth is 81.3 years for females and 77.3 years for men. This rate mirrors the national rate for Wales.

Canlyniad 1: Bod pobl yn Sir Gaerfyrddin yn iachach



Ffynhonnell: Data Arsyllfa Iechyd Cyhoeddus Cymru, gan ddefnyddio data cyfartaledd 3 mlynedd o Arolwg Iechyd Cymru (2003-2009)



Ffynhonnell: Data Arsyllfa Iechyd Cyhoeddus Cymru, gan ddefnyddio data cyfartaledd 3 mlynedd o Arolwg Iechyd Cymru (2003-2009)

Y stori tu ôl i'r ffigyrau

Yn ôl y Cynllun Gweithredu Rheoli Tybaco ar gyfer Cymru (TCAP, 2011) mae'r defnydd o dybaco yn rhoi pwysau ariannol ac emosiynol sylweddol ar unigolion a chymdeithas gan fod bron 50% o ysmygwyr tymor hir yn marw yn eu canol oed a chan fod iechyd llawer o ysmygwyr yn dioddef, sy'n golygu bod dirywiad yn eu hansawdd bywyd. Hefyd mae'r baich aruthrol a gaiff salwch o achos ysmegu yn gostus tu hwnt i'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol, gan fod 20% o'r holl dderbyniadau a diwrnodau gwely mewn ysbytai yng Nghymru i'w priodoli i heintiau sy'n gysylltiedig ag ysmegu. Yn ogystal, mae ysmegu yn costio llawer i'r economi drwy ddiwrnodau gwaith a gollir o achos salwch a thrwy gynnydd mewn taliadau budd-dal (TCAP, 2011).


Mae datblygiadau polisi yn y degawd diwethaf, gan gynnwys newidiadau i ddeddfwriaeth, rhaglen rhoi'r gorau i ysmegu, ac ymgyrchoedd ymwybyddiaeth, wedi cyfrannu'n helaeth at leihau'r niferoedd sy'n ysmegu ar draws Cymru. Yn Sir Gaerfyrddin mae'r ganran sy'n ysmegu wedi lleihau dros gyfnod Arolwg Iechyd Cymru, a hynny o 28% yn 2003-05 i 24% yn 2008-09. Fodd bynnag, mae angen cymryd rhagor o gamau er mwyn cyrraedd targedau'r Cynllun Gweithredu. Er enghraifft, mae angen gweithredu'n barhaus drwy Fforymau Rheoli Tybaco Lleol er mwyn rhoi sylw i atal ysmegu, cynnig cymorth i ysmygwyr sydd am roi'r gorau iddi, gorfodi'r polisi rheoli tybaco, a hyrwyddo amgylcheddau di-fwg.

Yn Sir Gaerfyrddin, fel yng ngweddill Cymru, mae canran yr oedolion a'r plant nad ydynt yn cynnal pwysau corff iach yn cynyddu. Dangosa data Arolwg Iechyd Cymru fod canran yr oedolion yn Sir Gaerfyrddin sydd dros bwysau neu sy'n ordew wedi cynyddu o 54% i 60% yn y degawd diwethaf.


Mae gan y cynnydd yn y bobl sydd dros bwysau neu sy'n ordew oblygiadau sylweddol o ran bod yn niweidiol i iechyd unigolion (e.e. diabetes math 2, heintiau cardiofasgwlaidd, a rhai mathau o ganser) ac o ran y baich cynyddol y mae salwch yn ei osod ar wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol.

Mae hyrwyddo ffordd o fyw lle mae rhywun yn colli pwysau'n gymedrol ac yn cyfuno hynny â chynyddu gweithgarwch corfforol wedi arwain at leihad o 50-58% mewn diabetes math 2 ymysg unigolion sydd dan risg (Tuomilehto et al 2001; Knowler et al 2002 yn Llwybr Gordewdra, Llywodraeth Cynulliad Cymru 2010).

Outcome 1: People in Carmarthenshire are healthier



Data provided by Public Health Wales Observatory, using 3 year rolling average data from the Welsh Health Survey (2003-2009)



Data provided by Public Health Wales Observatory, using 3 year rolling average data from the Welsh Health Survey (2003-2009)

Story behind the baselines

According to the Draft Tobacco Control Action Plan for Wales (TCAP, 2011) tobacco use imposes a significant financial and emotional burden on individuals and society as nearly 50% of all long-term smokers die in their middle age and many smokers will suffer poor health and associated loss of quality of life. The significant burden of illness due to smoking also has a major cost for the NHS with 20% of all admissions and bed days in Wales being attributable to smoking related diseases. In addition, smoking has a considerable cost to the economy through working days lost as a result of ill-health and increases in benefit payments (TCAP, 2011).

Policy developments in the last decade that include changes to legislation, cessation programmes and awareness campaigns have made a considerable contribution to reducing smoking prevalence across Wales. Within Carmarthenshire rates of smoking have declined over the lifetime of the Welsh Health Survey from 28% in 2003-05 to 24% in 2008-09, however, further measures are required if the targets outlined in the TCAP are to be achieved. For example, continued action, through local Tobacco Control Forums, is required around prevention, offering support to smokers who want to give up, enforcement of tobacco control policy and promoting smoke free environments.


In Carmarthenshire, as in the rest of Wales, the proportion of adults and children not maintaining a healthy body weight is increasing. Data from the Welsh Health Survey shows the percentage of adults in Carmarthenshire who are overweight or obese has increased from 54% to 60% within the last decade.

The implications of increasing rates of overweight and obesity are significant both in terms of adverse health outcomes for individuals (e.g. type 2 diabetes, cardio vascular disease and some cancers) and the growing burden ill health places on health and social care services.

Lifestyle interventions that promote moderate weight loss in combination with an increase in physical activity have resulted in a 50-58% reduction in the incidence of type 2 diabetes amongst at risk individuals (*Tuomilehto et al 2001; Knowler et al 2002 in Obesity Pathway, Welsh Assembly Government 2010*).


Canlyniad 1: Bod pobl yn Sir Gaerfyrddin yn iachach

Yn cymryd rhan yn rheolaidd mewn chwaraeon a gweithgareddau hamdden egnïol



Ffynhonnell: Chwaraeon Cymru gan ddefnyddio data o'r Arolwg Oedolion Egnïol

Cyfradd marwolaethau pob achos pobl 75 oed a llai



Ffynhonnell: Data Arsyllfa Iechyd Cyhoeddus Cymru gan ddefnyddio data cyfartaledd 3 mlynedd o'r Swyddfa Ystadegau Gwladol (ADDE, MYE)

Y stori tu ôl i'r ffigyrau


Ystyr y mesurydd "cymryd rhan yn rheolaidd mewn chwaraeon a gweithgareddau hamdden egnïol" yw canran y boblogaeth oedran oedolion (15 oed a hŷn) a ddywedodd eu bod wedi cymryd rhan mewn chwaraeon a gweithgareddau hamdden egnïol o leiaf unwaith yr wythnos ar gyfartaledd yn y pedair wythnos diwethaf. Daw'r data o'r Arolwg Oedolion Egnïol, sef arolwg dwyflynyddol o aelwydydd sy'n cael ei gomisiynu gan Chwaraeon Cymru er mwyn mesur y nifer sy'n cymryd rhan mewn chwaraeon, yr aelodau mewn clybiau, y gwirfoddolwyr, a'r materion eraill sy'n ymwneud â chwaraeon ymhlith oedolion yng Nghymru. Mae'r nifer sy'n cymryd rhan yn Sir Gaerfyrddin wedi aros yr un peth rhwng arolwg 2004-5 ac arolwg 2008-9, ond mae rhywfaint o ostyngiad wedi bod yng Nghymru, sef o 51% i 47%.

Cafwyd mwy na 22,000 o ymatebion i Arolwg Oedolion Egnïol 2008-09, ar sail sampl tebygolrwydd ar hap a strwythurwyd gan yr awdurdod lleol ac a gynhaliwyd gan 'Cello mruk research', ar ran Chwaraeon Cymru. Cafodd arolwg arall ei gynnal yn 2010 a bydd y canlyniadau ar gael tua diwedd 2011.


Mae'r marwolaethau cyn 75 oed wedi cael eu safoni fel y gellir mesur marwolaethau drwy'r Gyfradd Marwolaethau Oed-safonedig Ewropeaidd (EASR). Trwy hyn gellir cymharu Sir Gaerfyrddin a Chymru yn uniongyrchol dros amser, gan roi ystyriaeth i'r gwahanol strwythurau oedran. Os yw'r gyfradd marwolaethau dan 75 oed yn uwch mae hynny'n awgrymu bod iechyd y boblogaeth yn waeth gan fod pobl yn marw'n iau.

Yn gyffredinol mae'r EASR ar gyfer Sir Gaerfyrddin wedi dangos gostyngiad o 370.7 yn 2000-02 i 311.5 yn 2007-09. Roedd y gyfradd yn 2007-09 16% yn is na'r gyfradd ar ddechrau'r degawd. Roedd yr EASR ar gyfer Sir Gaerfyrddin yn unol â'r gyfradd ar gyfer Cymru am y cyfnod cyfan.

Outcome 1: People in Carmarthenshire are healthier



Source: SportWales using data from the Active Adults Survey



Data provided by the Public Health Wales Observatory, using 3 year rolling average data from ONS (ADDE, MYE)

Story behind the baselines


The regular participation in sport and active recreation measure is the percentage of the adult population (aged 15 and over) that reported participation at least once a week on average in the previous four week period. This data is sourced from the Active Adults Survey, a biennial household survey commissioned by SportWales to measure levels of sports participation, club membership, volunteering and other sporting matters amongst adults in Wales. Participation in Carmarthenshire has remained static between the 2004-5 and 2008-9 surveys, but there has been a slight reduction in Wales from 51% to 47%.

The 2008-09 Active Adults Survey collected over 22,000 responses based on a random probability sample stratified by local authority, and was undertaken by Cello mruk research, on behalf of the Sport Wales. A further survey has taken place during 2010 and the results will become available towards the end of 2011.


Deaths before the age of 75 have been age standardised to create a measure of mortality - European Age-Standardised Mortality Rate (EASR). This allows for direct comparisons between Carmarthenshire and Wales over time accounting for the different age structures. A higher under-75 mortality rate may suggest that a population's health is relatively poorer as people are dying at younger ages.

The EASR for Carmarthenshire has exhibited an overall downward trend from 370.7 in 2000-02 to 311.5 in 2007-09. The rate in 2007-09 was 16 percent lower than the rate for the start of the decade. The EASR for Carmarthenshire was consistent with the rate for Wales for the whole the period.

Canlyniad 1: Bod pobl yn Sir Gaerfyrddin yn iachach



Ffynhonnell: Data Arsyllfa Iechyd Cyhoeddus Cymru, gan ddefnyddio data cyfartaledd 3 mlynedd gan eHealthshow.



Ffynhonnell: Data Arsyllfa Iechyd Cyhoeddus Cymru gan ddefnyddio data o'r Swyddfa Ystadegau Gwladol (ystadegau hollbwysig) ar Stats Cymru

Y stori tu ôl i'r ffigyrau

Y gyfradd marwolaethau babanod yw nifer y marwolaethau yn ystod blwyddyn gyntaf bywyd fesul 1000 o enedigaethau byw. Yn ogystal â bod yn ffordd bwysig o fesur safon iechyd babanod a mamau, mae'n cynrychioli statws iechyd y boblogaeth yn gyffredinol. Mae oedran y fam a phwysau geni isel yn cael eu cysylltu â marwolaethau babanod. Yn ôl y Swyddfa Ystadegau Gwladol (2009) ymhlith mamau iau (dan 20 oed) y mae'r gyfradd hon ar ei uchaf, sef 5.9 o farwolaethau fesul 1000 o enedigaethau byw.


Yn Sir Gaerfyrddin mae'r gyfradd marwolaethau babanod wedi gostwng ar y cyfan o 6.4 fesul 1000 o enedigaethau byw yn 1998-00 i 4.3 yn 2007-09. Yn wahanol i'r gostyngiad mwy cyson ar gyfer Cymru mae Sir Gaerfyrddin yn dangos mwy o amrywioldeb, a gwelir tueddiad clir i ostwng hyd at gyfradd o 2.3 fesul 1000 o enedigaethau byw (rhwng 1998-00 a 2002-04) ac yna tuedd i gynyddu rhwng 2003 a 2009 (hyd at gyfradd o 4.3 fesul 1000 o enedigaethau byw.)

Ystyrir pwysau geni o 2500 gram neu lai yn bwysau geni isel. Mae pwysau geni a'r cyfnod cario yn brif ddangosyddion o ran statws iechyd babanod yn y dyfodol gan fod mwy o debygolrwydd y bydd cymhlethdodau adeg geni baban â phwysau geni isel, ac yn ystadegol mae'n fwy tebygol y bydd anomaledau corfforol a meddyliol pan gaiff ei eni.


Mae pwysau geni isel ymhlith babanod a gariwyd am y cyfnod cario llawn yn brif ffactor o ran marwolaethau babanod. Y gyfradd marwolaethau babanod ar gyfer babanod isel iawn eu pwysau (o dan 1,500 gram) a babanod isel eu pwysau (o dan 2,500 gram) yw 175.9 a 38.3 o farwolaethau fesul 1,000 o enedigaethau byw (2009). Gellir cymharu hyn â'r gyfradd ar gyfer babanod â phwysau geni o 2,500 gram a mwy (1.5 o farwolaethau fesul 1,000 o enedigaethau byw).

Yn Sir Gaerfyrddin mae canran y babanod pwysau geni isel am y cyfnod rhwng 1996 a 2008 wedi bod ychydig yn is na'r cyfartaledd Cymreig am yr un cyfnod (6.7% a 7.2%). Dangosa'r data ar gyfer 2009 gynnydd yn y gyfradd i 8.3% o'r holl enedigaethau byw. Bydd ymyriadau sy'n rhoi sylw i faethiad mamau, amodau byw, a ffyrdd o fyw afiach megis ysmygu a chamddefnyddio cyffuriau yn cyfrannu at leihau nifer y babanod pwysau geni isel.

Outcome 1: People in Carmarthenshire are healthier



Data provided by the Public Health Wales Observatory, using 3 year rolling average data from eHealthshow



Data provided by Public Health Wales Observatory, using data from ONS (vital statistics) on Stats Wales

Story behind the baselines

The infant mortality rate (IMR) is the number of deaths in the first year of life per 1000 live births. IMR is not only an important measure of the quality of infant and maternal health but it also reflects the overall health status of the population. Maternal age and low birth weight (LBW) are associated with infant mortality. According to the Office of National Statistics (ONS, 2009) younger mothers (aged under 20 years) have the highest IMR rate at 5.9 deaths per 1,000 live births.

In Carmarthenshire the IMR has declined overall from 6.4 per 1000 live births in 1998-00 to 4.3 per 1000 live births in 2007-09. The overall trend in Carmarthenshire, unlike the more linear downward trend for Wales, shows greater variability with a clear downward trend to an IMR of 2.3 per 1000 live births (between 1998-00 and 2002-04) followed by an increasing trend between 2003 to 2009 (to 4.3 per 1000 live births).


Low birth weight (LBW) is a birth weight of 2500 grams or less. Birth weight and length of gestation are primary indicators of an infant's future health status as a low birth weight baby is more likely to experience complications during delivery and has a statistically greater chance of having physical and mental birth anomalies.

LBW in full-term infants is a major contributing factor for infant mortality. The infant mortality rate (IMR) for very LBW babies (under 1,500 grams) and LBW babies (under 2,500 grams) is 175.9 and 38.3 deaths per 1,000 live births respectively (ONS, 2009). Compared to the IMR for babies with a birth weight of 2,500 grams and over (1.5 deaths per 1,000 live births).

In Carmarthenshire the incidence of LBW babies has over the period 1996 to 2008 been slightly below the Welsh average for the same period (6.7% and 7.2%, respectively). Data for 2009 shows an increase in the rate to 8.3% of all live births. Interventions that address maternal nutrition, living conditions and unhealthy lifestyle choices such as smoking, and substance misuse will contribute to a reduction in the incidence of LBW babies.


Canlyniad 1: Bod pobl yn Sir Gaerfyrddin yn iachach

Canran y plant yn Sir Gaerfyrddin sy'n cael y brechiadau plentyndod arferol



Ffynhonnell: Data Adroddiadau COVER chwarterol Iechyd Cyhoeddus Cymru, yn gywir ym mis Rhagfyr 2010

Canran sy'n cael brechiad rhag y fflw yn Sir Gâr



Ffynhonnell: Data Rhaglen Afiechydon Ataliadwy trwy Frechu Iechyd Cyhoeddus Cymru a'r Ganolfan Arolygu Clefydau Trosglwyddadwy

Y stori tu ôl i'r ffigyrau

Brechu yw un o'r ffyrdd pwysicaf o ddiogelu plant a'r gymuned rhag heintiau difrifol, ac felly dylid gwneud pob ymdrech i ddatblygu ymagweddau effeithiol er mwyn cynyddu cyfraddau'r brechiadau plentyndod i'r lefel ofynnol ar gyfer cael 'imiwnedd poblogaeth'.


Mae'r ffigwr uchod yn dangos y tueddiadau o ran brechiadau plentyndod yn ôl chwarter rhwng 2004 a diwedd chwarter cyntaf 2011. Mae'r cyfraddau ar gyfer derbyn y cwrs cyfan o 5 o frechiadau mewn 1 (difftheria, tetanws, y pâs, polio, fflw haemophilus math b) a derbyn Men C (Meningococoid C) erbyn 1 oed wedi gwella dros y cyfnod a bellach maent yn agos at y targed o 95%. Mae'r nifer sy'n derbyn y dos cyntaf o'r brechiad MMR (Clwy'r Pennau, y Frech Goch a Rwbela) yn cynyddu ynghyd â'r nifer sy'n cael yr ail ddos MMR. Fodd bynnag, mae angen i'r ganran sy'n cael y dos cyntaf a'r ail ddos fod yn uwch (y targed yw 95%) fel y gellir cyrraedd y lefelau gorau posibl o ran diogelu poblogaeth Sir Gaerfyrddin rhag clwy'r pennau, y frech goch, a rwbela.

Nod yr ymgyrch dymhorol i frechu pobl rhag y fflw yw lleihau i'r graddau mwyaf posibl yr achosion o forbidrwydd, y marwolaethau, a'r derbyniadau i ysbytai sy'n gysylltiedig â'r fflw. Yng Nghymru cynigir brechiad rhag y fflw tymhorol i bob un dros 65 oed ac i bawb dan 65 oed sydd mewn grŵp risg clinigol (e.e. pobl â diabetes, asthma). Y targed cenedlaethol ar gyfer brechu rhag y fflw yw 70% ar gyfer pobl 65 oed a hŷn. Pennwyd y targed hwn yn 2002 ac mae wedi cael ei godi i 75% ar gyfer tymor 2010/11, a bydd hefyd yn cynnwys grwpiau iau sydd dan risg.

Y ganran yng Nghymru a gafodd ei brechu rhag y fflw yn 2009/10 oedd 64% o'r rhai 65 oed a hŷn a 50.1% o'r rhai dan 65 oed a oedd mewn grŵp dan risg. Er bod y gyfradd wedi gwella yn achos yr holl grwpiau targed dros y degawd diwethaf, mae'r targed o 75% yn dal i fod yn her sylweddol (Rhaglenni Afiechydon Ataliadwy trwy Frechu Iechyd Cyhoeddus Cymru a'r Ganolfan Arolygu Clefydau Trosglwyddadwy, 2011)


Outcome 1: People in Carmarthenshire are healthier

Uptake of routine childhood immunisations in Carmarthenshire



Source: Public Health Wales quarterly COVER reports, correct as at December 2010

Uptake of Influenza immunisation in Carmarthenshire



Data provided Public Health Wales Vaccine Preventable Disease Programme (VPDP) and Communicable Disease Surveillance Centre (CDSC)

Story behind the baselines

Immunisation is one of the most important ways of protecting children and the community from serious diseases, therefore, every effort should be taken to develop effective approaches for raising rates of childhood immunisations to the level required for 'herd immunity'.


The figure above shows trends in the uptake of childhood vaccines by quarter from 2004 to the end of the first quarter 2011. Uptake rates for a completed course of the 5 in 1 vaccine (diphtheria, tetanus, pertussis, polio and Haemophilus influenza type b), and for Men C (Meningococcal C) by the age of 1 have improved over the period and are now close to the 95% target. Uptake of the first dose of MMR (Measles, mumps and rubella) vaccine is increasing as is uptake of the second dose of MMR, however, uptake of the first and second doses needs to be higher (the target is 95%) to provide optimal levels of protection against measles, mumps and rubella in the Carmarthenshire population.

The aim of the seasonal influenza immunisation campaign is to minimise flu related morbidity, mortality and hospital related admissions. In Wales seasonal flu immunisation is offered to all people over the age of 65 years and to all those under the age of 65 years who are in a clinical risk group (e.g. diabetes, asthma). The national target for flu immunisation uptake is 70% for people aged 65 years and over. This target has been in place since 2002 and has been raised for the 2010/11 season to 75% and will also include the younger 'at risk' groups.

Uptake of influenza immunisation during 2009/10 in Wales was 64% in those aged 65 years and over and 50.1% for those under the age of 65 year but in an 'at risk' group. While the rate for all target groups has improved in the last decade achieving the target of 75% remains a considerable challenge (PHW VPDP & CDSC Programmes, 2011).


Canlyniad 1: Bod pobl yn Sir Gaerfyrddin yn iachach

Cyfradd marwolaethau drwy hunanladdiad ymysg dynion



Ffynhonnell: Data Arsyllfa Iechyd Cyhoeddus Cymru, gan ddefnyddio data cyfartaledd 3 mlynedd o'r Swyddfa Ystadegau Gwladol (ADDE & MYE)

Cyfradd marwolaethau drwy hunanladdiad ymysg menywod




Ffynhonnell: Data Arsyllfa Iechyd Cyhoeddus Cymru, gan ddefnyddio data cyfartaledd 3 mlynedd o'r Swyddfa Ystadegau Gwladol (ADDE & MYE)

Y stori tu ôl i'r ffigyrau


Ar gyfartaledd mae 300 o farwolaethau drwy hunanladdiad y flwyddyn yng Nghymru, a dynion sy'n cyflawni tri chwarter o'r rheiny. Mae hunanladdiad yn un o brif achosion marwolaeth yn y grŵp oedran 15-44, ac mae'n cyfrif am bron 1 o bob 5 marwolaeth ymysg dynion 15-24 oed yng Nghymru a bron 1 o bob 10 marwolaeth ymysg menywod o'r oedran hwnnw. Mae hunanladdiad yn cyfrif am tua 28% o'r ffactorau allanol sy'n achosi marwolaeth ym mhob grŵp oedran (15 oed a hŷn), ac mae hynny'n uwch na'r marwolaethau trwy ddamweiniau traffig ffyrdd, sy'n cyfrif am 16% (172 y flwyddyn) yn yr un grŵp oedran dros yr un cyfnod (*Arsyllfa Iechyd Cyhoeddus Cymru, 2008*). Mae nifer o ffactorau yn gysylltiedig â hunanladdiad, yn cynnwys amddifadedd, salwch seicolegol a chorfforol.

Mae'r gyfradd hunanladdiad ar gyfer dynion yng Nghymru wedi gostwng rhyw ychydig rhwng 2000-02 a 2007-09, o Gyfradd Marwolaethau Oed-safonedig Ewropeaidd o 17.5/100,000 i 14.3/100,000. Ar gyfartaledd mae 18 o ddynion a 4 o fenywod y flwyddyn yn cyflawni hunanladdiad yn Sir Gaerfyrddin. Mae'r gyfradd marwolaethau ar gyfer dynion yn Sir Gaerfyrddin yn uwch na'r cyfartaledd Cymreig ac mae wedi aros yn eithaf sefydlog gyda Chyfradd Marwolaethau Oed-safonedig Ewropeaidd o 21/100,000 ar gyfer y cyfnod cyfan.

Outcome 1: People in Carmarthenshire are healthier



Data provided by the Public Health Wales Observatory, using 3 year rolling average data from ONS (ADDE & MYE)




Data provided by the Public Health Wales Observatory, using 3 year rolling average data from ONS (ADDE & MYE)

Story behind the baselines


There is, on average, 300 deaths from suicide per year in Wales, three quarters of which are among males. Suicide is a major cause of death among the 15-44 year old age group, accounting for almost one in five deaths among men aged 15-24 in Wales and almost one in 10 deaths among women of that age. Suicide accounts for approximately 28% of external causes of death in all ages (15 years and over), exceeding deaths from road traffic accidents which account for 16% (172 per year) in the same age group and time period (*Public Health Wales Observatory, 2008*). Suicide is associated with many factors including deprivation, psychiatric and physical illness.

The suicide rate for men in Wales has shown a small decline for the period 2000-02 to 2007-09, from a European Age-Standardised Mortality Rate (EASR) of 17.5/100,000 to 14.3/100,000. In Carmarthenshire there are, on average 18 male deaths and 4 female deaths from suicide each year. The mortality rate for males in Carmarthenshire is higher than the Welsh average and has remained fairly stable with an average EASR of 21/100,00 for the whole period

Canlyniad 1: Bod pobl yn Sir Gaerfyrddin yn iachach



Ffynhonnell: Cyngor Sir Caerfyrddin



Ffynhonnell: Cyngor Sir Caerfyrddin – Arolwg Cyflwr Tai, Byw yn Sir Gâr

Y stori tu ôl i'r ffigyrau


Yn 2010 derbyniodd Sir Gaerfyrddin ddyletswydd i ailgartrefu rhagor o deuluoedd o dan y ddeddfwriaeth digartrefedd - 88.4 am bob 10,000 o aelwydydd o gymharu â'r cyfartaledd Cymreig o 46.4. Mae rhywfaint o hyn o achos gwahaniaethau yn sut y diffinnir diagrtrefedd, er enghraifft mae Sir Gaerfyrddin yn mabwysiadu'r arferion gorau diweddaraf drwy ystyried yn ddigartref y bobl hynny y mae eu cyflwr meddygol yn ei gwneud yn afresymol iddynt barhau i fyw yn eu cartref presennol. Rydym yn newid y ffordd mae'r tai Cyngor a thai'r cymdeithasau tai yn cael eu dyrannu er mwyn lleihau'r rheidrwydd sydd ar bobl y mae angen tai arnynt ar frys i gael eu clustnodi'n ddigartref cyn y gallant gael eu hailgartrefu.

Mae Cyngor Sir Caerfyrddin yn cynnal Arolwg Cyflwr Tai bob 5 mlynedd sy'n cymharu absenoldeb peryglon categori 1* ag iechyd a diogelwch preswylwyr yn eu cartrefi. Er mwyn cwblhau'r arolygon dewisir cyfeiriadau ar hap o gronfeydd data Treth y Cyngor, gan eithrio'r preswylfeydd y mae'r Cyngor yn berchen arnynt. Cafodd cyfanswm o 1295 o breswylfeydd eu harolygu fel rhan o'r arolwg hwn yn 2009.


Mae gwelliant nodedig wedi bod ers 2004 o ran lleihau peryglon categori 1. Bu i Lywodraeth Cymru gynnal arolwg tebyg iawn ar gyfer Cymru gyfan yn 2008, a 71% oedd y canlyniad.

*Dyma enghreifftiau o beryglon Categori 1: oerfel, lleithder a thwf llwydni, peryglon trydanol, carbon monocsid, nwyddau hylosgi tanwydd ac ati.

Outcome 1: People in Carmarthenshire are healthier



Source: Carmarthenshire County Council



Source: Carmarthenshire County Council - Living in Carmarthenshire Housing Condition Survey

Story behind the baselines

Carmarthenshire in 2010 accepted a duty to rehouse more families under the homelessness legislation – 88.4 per 10,000 households compared with the Welsh average of 46.4. Some of this is due to differences in how homelessness is defined, for example Carmarthenshire adopts latest best practice in considering people whose medical condition makes it unreasonable for them to continue to live in the property as homeless. We are changing the way Council and housing association homes are allocated to reduce the need for people in urgent housing need to be classed as homeless in order to be rehoused.

A House Condition Survey is carried out by Carmarthenshire County Council every 5 years which measures the absence of category 1 hazards* to residents' health and safety in their homes. A random sample of addresses are taken from the Council Tax databases, excluding Council owned dwellings, for surveys to be completed. A total of 1295 dwellings were inspected as part of this survey for 2009.

There has been a marked improvement in reducing category 1 hazards since 2004.

A very similar survey was undertaken by the Welsh Government for the whole of Wales in 2008 where the results were 71%.

*Examples of Category 1 hazards are :- Excess cold; Damp and mould growth; Electrical hazards; Carbon monoxide and fuel combustion products etc.

Canlyniad 2: Bod pobl yn Sir Gaerfyrddin yn cyflawni eu potensial o ran dysgu

Mae'r dangosyddion poblogaeth canlynol yn mesur perfformiad y sir o ran y Canlyniad hwn :-

Presenoldeb mewn ysgolion - Cynradd ac Uwchradd


Y disgyblion sy'n gadael heb gymwysterau

Yr oedolion o oedran gweithio sydd heb unrhyw gymwysterau


Cyflawniad arholiadau disgyblion 15 oed - Cyfnod Allweddol 4

Y plant sy'n derbyn gofal sydd ag o leiaf 1 TGAU gradd A* - G neu GNVQ

Gadael Addysg Uwch ac ymuno â byd gwaith



Ffynhonnell: Ystadegau Gwladol



Ffynhonnell: Ystadegau Gwladol

Y stori tu ôl i'r ffigyrau

Mae'r presenoldeb mewn ysgolion cynradd wedi gostwng rhyw ychydig ers y flwyddyn flaenorol a 7.1% yw'r lefel absenoldeb, ond mae'r lefel absenoldeb heb ganiatâd wedi aros yr un peth, sef 0.6%. Mae'r presenoldeb mewn ysgolion uwchradd wedi cynyddu yn y flwyddyn ddiwethaf ac 8.86% yw'r lefel absenoldeb, gyda'r lefel absenoldeb heb ganiatâd wedi gostwng o 0.9% i 0.7%. Mae ysgolion yn ceisio gweithredu'n gynharach er mwyn lleihau absenoldeb, a hynny drwy 1) Cymeradwyo disgyblion am bresenoldeb da, 2) Gweithredu 'cam dilynol diwrnod cyntaf' mewn sawl ysgol 3) Gwahodd rhieni i'r ysgol i leihau'r absenoldeb a oddefir, 4) Targedu disgyblion oedd â phresenoldeb o 75-90% yn y flwyddyn flaenorol, 5) Gwell mentora.

Mae canlyniadau Cyfnod Allweddol 4 (lle mae disgyblion 15 oed yn cyrraedd trothwy Lefel 2 mewn Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf, mathemateg a gwyddoniaeth) yn parhau i wella'n flynyddol yn Sir Gaerfyrddin, fel y maent yng Nghymru gyfan. O ran perfformiad, Sir Gaerfyrddin oedd yr awdurdod pedwerydd gorau yng Nghymru ar gyfer blwyddyn ysgol 2009/10, yn dilyn Bro Morgannwg (54.4%), Powys (56.6%), a Sir y Fflint (57.6%).

Outcome 2: People in Carmarthenshire fulfil their learning potential

The following headline population indicators will measure how well the County is doing within this Outcome :-

School Attendance – Primary & Secondary


Pupils leaving with no qualifications

Working age adults with no qualifications


Examination achievements of pupils aged 15 - Key Stage 4 (KS4)

Looked After Children (LAC) with at least 1 A*-G at GCSE or GNVQ

Leaving Higher Education into employment



Source: National Statistics



Source: National Statistics


Story behind the baselines

Attendance in primary schools has slightly decreased on previous year with an absence level of 7.1%, but the unauthorised absence has remained the same at 0.6%. The secondary schools attendance has increased in the past year with an absence level of 8.86%, with unauthorised absence reduced from 0.9% to 0.7%. Schools are trying to be more proactive at early stages to reduce absence, through 1) Commend pupils for good attendance, 2) Operate a 'first day follow up' in several schools, 3) Invite parents in to school to reduce condoned absence, 4) Target pupils with 75-90% attendance in previous year, 5) Enhanced mentoring.

The results for Key Stage 4 (where pupils aged 15 yrs achieve the Level 2 threshold in English or Welsh first language, mathematics and science) continue to improve year on year in Carmarthenshire as they do for the whole of Wales. Carmarthenshire is the 4th best performing authority in Wales for 2009/10 academic year, following Vale of Glamorgan (54.4%), Powys (56.6%) and Flintshire (57.6%).


Canlyniad 2: Bod pobl yn Sir Gaerfyrddin yn cyflawni eu potensial o ran dysgu

Disgyblion heb gymwysterau



Ffynhonnell: Ystadegau Gwladol

Canran y plant sy'n derbyn gofal sydd ag 1
TGAU gradd A*-G neu GNVQ



Ffynhonnell: Stats Cymru

Y stori tu ôl i'r ffigyrau


Mae nifer y disgyblion sy'n gadael addysg orfodol, hyfforddiant, neu ddysgu seiliedig ar waith heb gymhwyster allanol cymeradwy yn lleihau drwy'r amser yn Sir Gaerfyrddin ac yng Nghymru. Rydym ni'n ceisio tynnu sylw'n gynnar iawn at ddisgyblion y mae perygl na fyddant yn ennill cymwysterau cydnabyddedig. Bydd y plant hyn yn cael eu targedu'n benodol er mwyn sicrhau bod eu canlyniadau'n gwella.

Roedd y ffigwr yn Sir Gaerfyrddin yn uwch o lawer na ffigwr cyfartalog Cymru yn 2008/9, ond erbyn 2009/10 roedd wedi gostwng i fod ychydig yn is na ffigwr cyfartalog Cymru. Mae nifer y plant sy'n derbyn gofal yn Sir Gaerfyrddin yn gymharol fach, yn enwedig y rhai sydd o oedran sefyll arholiadau TGAU/GNVQ, ac felly mae'r canlyniadau'n gallu amrywio'n fawr o flwyddyn i flwyddyn.

Mae'r dyhead bod plant mewn gofal yn ennill o leiaf un cymhwyster TGAU wedi cael ei nodi yn nangosyddion perfformiad Llywodraeth Cymru ar gyfer awdurdodau lleol.


Outcome 2: People in Carmarthenshire fulfil their learning potential

Pupils with no qualifications



Source: National Statistics

% Looked after Children with 1 A*-G at GCSE or GNVQ



Source: Stats Wales

Story behind the baselines


The number of pupils that leave compulsory education, training or work based learning without an approved external qualification is constantly reducing within Carmarthenshire and Wales. We try to highlight those pupils that are at risk of not achieving at an early stage. These children will be targeted specifically to ensure results improve.

Carmarthenshire was well above the Wales average figures for 2008/9, but have declined for 2009/10 to just below the Wales average figure. The number of looked after children in Carmarthenshire is relatively small, especially those of an age to sit their GCSE/GNVQ examinations, therefore the results can vary greatly from year to year.

The minimum one GCSE aspiration for children in care is laid down in Welsh Government performance indicators for local authorities.


Canlyniad 2: Bod pobl yn Sir Gaerfyrddin yn cyflawni eu potensial o ran dysgu

Yr Oedolion sydd heb gymwysterau



Ffynhonnell: Ystadegau Gwladol

Y myfyrwyr sy'n cael gwaith ar ol gadael addysg uwch



Ffynhonnell: Yr Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch

Y stori tu ôl i'r ffigyrau

Amcangyfrifir bod 14% o oedolion oedran gweithio yng Nghymru heb gymwysterau, sydd 1% yn llai na 2007. Mae 56% o'r bobl sydd heb gymwysterau (nad ydynt mewn addysg amser llawn) naill ai'n ddi-waith neu'n anweithgar yn economaidd. Mae hyn yn cymharu â 25% yn achos y boblogaeth gyfan.


Mae'r dangosydd cyflogaeth yn nodi nifer y graddedigion sy'n dweud eu bod yn gweithio neu'n astudio (neu'r ddau) fel canran o'r holl bobl sy'n gweithio, yn astudio, neu'n chwilio am waith.

Mae'r duedd yn dangos bod ychydig o ostyngiad yn nifer y myfyrwyr yn Sir Gaerfyrddin sydd wedi cael gwaith yn y tair blynedd diwethaf, sef o 97.9% yn 2006/7 i 94.8% yn 2008/09.

Mae'r data hwn wedi ei seilio ar fyfyrwyr addysg uwch amser llawn yn Sir Gaerfyrddin sydd wedi ennill gradd dosbarth cyntaf. Mae cyfartaledd o 40% o'r myfyrwyr o Sir Gaerfyrddin.


Outcome 2: People in Carmarthenshire fulfil their learning potential

Adults with no qualification



Source: National Statistics

Students leaving higher education gaining employment



Source: Higher Education Statistics Agency Limited

Story behind the baselines

An estimated 14% of working age adults in Wales reported having no qualifications, 1% lower than in 2007.
56% of persons with no qualifications (who are not in full-time education) are either unemployed or economically inactive. This compares to 25% across the populations as a whole.

The employment indicator expresses the number of graduates who say they are working or studying (or both) as a percentage of all those who are working, studying or seeking work.

The trend shows that there is a slight decline in the number of these Carmarthenshire students gaining employment in the last three years, from 97.9% in 2006/7 to 94.8% in 2008/9.

This data is based on full-time higher education students educated in Carmarthenshire obtaining first degrees. An average of 40% of students are from Carmarthenshire.


Canlyniad 3: Bod pobl sy'n byw ac yn gweithio yn Sir Gaerfyrddin ac yn ymweld â'r sir yn ddiogel ac yn teimlo'n fwy diogel

Mae'r dangosyddion poblogaeth canlynol yn mesur perfformiad y sir o ran y Canlyniad hwn :-

Nifer y bobl a laddwyd neu a anafwyd yn ddifrifol mewn damweiniau ar y ffyrdd Cyfanswm y troseddau a gofnodwyd
Teimlo'n ddiogel yn eich ardal leol yn y dydd ac yn y nos Nifer y plant ar y gofrestr amddiffyn plant

Mae angen datblygu data yn y meysydd canlynol er mwyn i ni allu mesur:-
Diogelu oedolion

Nifer y bobl a laddwyd neu a anafwyd yn ddifrifol mewn damweiniau ar y ffyrdd



Ffynhonnell: Swyddfa Gartref a Ystadegau Gwladol

Y stori tu ôl i'r ffigyrau

Yn ei Strategaeth Diogelwch Ffyrdd ar gyfer Cymru (a gyhoeddwyd ym mis Ionawr 2003), pennodd Llywodraeth Cymru darged o leihau 40% ar nifer y bobl a gâi eu lladd/anafu'n ddifrifol. Roedd y targed hwn i'w gyrraedd erbyn 2010 ac roedd wedi ei seilio ar gyfartaledd yr anafiadau rhwng 1994 a 1998. Yr union leihad yn Sir Gaerfyrddin erbyn diwedd 2010 oedd 55.7%.


Mae strategaeth diogelwch ffyrdd wedi cael ei datblygu ar gyfer Sir Gaerfyrddin, er mwyn lleihau nifer y bobl sy'n cael eu lladd neu eu hanafu'n ddifrifol ar ein ffyrdd. Mae'r strategaeth hon wedi cael ei gweithredu yn ystod y blynedd diwethaf ac mae wedi galluogi'r awdurdod i ddiffinio a chanolbwyntio ar nifer o amcanion diogelwch ffyrdd y mae seiliau cadarn iddynt.

Yn ariannol mae'r amcanion diogelwch ffyrdd hyn wedi cyfrannu at arbed £163,742,885 (Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru) yn ystod y 10 mlynedd diwethaf o gymharu â ffigwr 1994-98.

Outcome 3: People who live, work and visit Carmarthenshire are safe and feel safer

The following headline population indicators will measure how well the County is doing within this Outcome :-
 Number of people killed or seriously injured in road accidents
 Total recorded crime
 Feeling safe in your local area during the day and at night
 Number of children on the child protection register

Data development required to measure what we need:-
 Safeguarding Adults



Source: Home Office & ONS

Story behind the baselines


In its Road Safety Strategy for Wales (published January 2003), The Welsh Government set a reduction target of 40% in the total number of killed/seriously injured (KSI), this target was to be achieved by 2010 and were set against a baseline of the average number of casualties between 1994 and 1998. The actual reduction in Carmarthenshire at the end of 2010 is 55.7%.

A road safety strategy has been developed for Carmarthenshire with the aim of reducing the number of killed and seriously injured on our roads. This strategy has been implemented during the last few years and has enabled the authority to define and focus on a number of well-founded road safety objectives.

These road safety objectives have contributed to, in monetary terms, a saving of £163,742,885 (Source:WG) during the last ten years when compared to the 1994-98 base line figure.


Canlyniad 3: Bod pobl sy'n byw ac yn gweithio yn Sir Gaerfyrddin ac yn ymweld â'r sir yn ddiogel ac yn teimlo'n fwy diogel

Cyfanswm y troseddu a gofnodwyd fesul 1,000 o'r boblogaeth



Ffynhonnell: Swyddfa Gartref a Swyddfa Ystadegau Gwladol

Pa mor ddiogel mae pobl yn teimlo yn ystod y dydd yn lle maent yn byw?



Ffynhonnell: Cyngor Sir Caerfyrddin a'r Panel Dinasyddion


Y stori tu ôl i'r ffigyrau

Is-gyfres o droseddau a gofnodir yw'r troseddau a ddefnyddir yn y dangosydd hwn, y gellir eu rhoi yn y categorïau canlynol yn Arolwg Troseddau Prydain:- dwyn cerbyd, dwyn o gerbyd, ymyrryd â cherbyd, byrgleriaeth ddomestig, dwyn beic, dwyn oddi ar berson, difrod troseddol, ymosodiad cyffredin, anafu, a lladrata (eiddo personol nid eiddo busnes). Mae'r is-gyfres hon yn cwmpasu tua 60% o'r holl droseddau a gofnodir. Mae'r duedd yn dangos lleihad parhaus yn Sir Gaerfyrddin a Chymru.

Cynhaliwyd yr arolwg hwn gan Gyngor Sir Caerfyrddin ym Mai 2010 drwy brosiect ar y cyd â Phanel Dinasyddion Sir Gâr. Dosbarthwyd 734 o arolygon i aelodau'r panel. Dychwelwyd 542 ohonynt, a olygai taw 74% oedd y gyfradd ymateb gyffredinol. Roedd 62% o'r rhai wnaeth ymateb yn teimlo'n ddiogel iawn yn ystod y dydd yn lle roeddynt yn byw ac roedd 34% yn teimlo'n weddol ddiogel. Roedd 3% (14 o bobl) yn teimlo braidd yn anniogel ac roedd 1% yn teimlo'n anniogel iawn.


Outcome 3: People who live, work and visit Carmarthenshire are safe and feel safer

Total recorded crime per 1,000 population



Source: Home Office & ONS

How safe do you feel in the area where you live in the daytime?



Source: Carmarthenshire County Council & Citizens' Panel


Story behind the baselines

The recorded crimes used in this indicator are a sub set of recorded crimes which can be aligned to the following categories in the British Crime Survey:- theft of a vehicle, theft from a vehicle, vehicle interference and tampering, domestic burglary, theft of a pedal cycle, theft from a person, criminal damage, common assault, wounding and robbery (of personal property not business property). This set of crimes covers about 60% of all recorded crime. The trend shows a continued reduction in both Carmarthenshire and Wales.

This survey was held by Carmarthenshire County Council in May 2010 through a joint project of the Carmarthenshire Citizens' Panel. 734 surveys were sent out to Panel members. 542 surveys were returned, giving an overall response rate of 74%. 62% of respondents felt very safe in the area where they lived in the daytime, and 34% felt fairly safe. 3% (14 respondents) said they felt a bit unsafe, and 1% felt very unsafe.


Canlyniad 3: Bod pobl sy'n byw ac yn gweithio yn Sir Gaerfyrddin ac yn ymweld â'r sir yn ddiogel ac yn teimlo'n fwy diogel

Pa mor ddiogel mae pobl yn teimlo lle maent yn byw ar ôl iddi nosi?



Ffynhonnell: Cyngor Sir Caerfyrddin a'r Panel Dinasyddion

Nifer y plant sy'n derbyn gofal yn Sir Gar



Ffynhonnell: Gwasanaethau Cymdeithasol Personol, Llywodraeth Cymru

Y stori tu ôl i'r ffigyrau


Cynhaliwyd yr arolwg hwn gan Gyngor Sir Caerfyrddin ym Mai 2010 drwy brosiect ar y cyd â Phanel Dinasyddion Sir Gâr. Dosbarthwyd 734 o arolygon i aelodau'r panel. Dychwelwyd 542 ohonynt, a olygai taw 74% oedd y gyfradd ymateb gyffredinol.

Roedd 49% o'r rhai wnaeth ymateb yn teimlo'n weddol ddiogel yn lle roeddynt yn byw ar ôl iddi nosi, ac roedd 30% yn teimlo'n ddiogel iawn. Roedd 14% (76 o bobl) yn teimlo braidd yn anniogel, 4% (23 o bobl) byth yn mynd allan ar ôl iddi nosi, ac roedd 3% (14 o bobl) yn teimlo'n anniogel iawn.

Yn y tair blynedd diwethaf mae cynnydd sylweddol wedi bod yn nifer y plant sy'n derbyn gofal yn y sir, sef o 175 yn 2006 i 245 yn 2010 (cynnydd o 40%), o gymharu â chynnydd o 14% yng Nghymru (o 4530 yn 2006 i 5160 yn 2010). Mae'r duedd gynyddol hon yn gosod gofynion ychwanegol ar dimau gofal plant ac ar wasanaethau eraill megis maethu. Er bod y ffigyrau fel pe baent yn uchel o bosibl, nid yw hynny o reidrwydd yn golygu bod y perfformiad yn wael. Mae'n debygol bod nifer o ffactorau'n gyfrifol am y cynnydd hwn, gan gynnwys rhagor o angen ac ymwybyddiaeth a newidiadau i bolisiâu ac arferion yr awdurdod lleol.


Outcome 3: People who live, work and visit Carmarthenshire are safe and feel safer

How safe do you feel in the area where you live in the after dark?



Source: Carmarthenshire County Council & Citizens' Panel

The number of looked after children in Carmarthenshire



Source: Personal Social Services, Welsh Government

Story behind the baselines

This survey was held by Carmarthenshire County Council in May 2010 through a joint project of the Carmarthenshire Citizens' Panel. 734 surveys were sent out to Panel members. 542 surveys were returned, giving an overall response rate of 74%.


49% of respondents felt fairly safe in the area where they lived after dark, and 30% felt very safe. 14% (76 respondents) said they felt a bit unsafe, 4% (23 respondents) said they never went out after dark, and 3% (14 respondents) felt very unsafe.

The last three years have seen a significant increase in the number of children becoming looked after within the county, from 175 in 2006 to 245 in 2010 a 40% increase, compared to 14% increase in Wales from 4530 in 2006 to 5160 in 2010. This increasing trend places additional demands on the child care teams and other services such as fostering. Whilst the figures may look high this may not necessarily be a bad reflection of performance. It is likely that this rise is related to a number of factors including increased need and awareness and changes to local authority policies and practices.


Canlyniad 4: Bod cymunedau ac amgylchedd Sir Gaerfyrddin yn gynaliadwy

Mae'r dangosyddion poblogaeth canlynol yn mesur perfformiad y sir o ran y Canlyniad hwn :-
 Allyriadau carbon deuocsid
 Gwastraff sirol a anfonir i safleoedd tirlenwi
 Perygl o ran llifogydd
 Ôl troed ecolegol
 Ansawdd afonydd
 Nifer y siaradwyr Cymraeg yn y sir

Mae angen datblygu data yn y meysydd canlynol er mwyn i ni allu eu mesur:-
 Ynni adnewyddadwy: Trafnidiaeth:
 Bioamrywiaeth



Ffynhonnell: Yr Adran Ynni a Newid yn yr Hinsawdd



Ffynhonnell: Sefydliad Amgylcheddol Stockholm a'r Rhwydwaith Ôl Troed Byd-eang

Y stori tu ôl i'r ffigurau

Caiff carbon deuocsid ei greu pan fyddwn yn llosgi tanwydd ffosiliedig (glo, olew, nwy) er mwyn cynhyrchu ynni a gwres. Ar hyn o bryd mae carbon deuocsid yn cael ei ryddhau tua tair gwaith yn gynt na'r hyn y gall yr atmosffer ei adamsugno, ac mae'n cyfrannu at newidiadau yn ein hinsawdd. Yn Sir Gaerfyrddin mae'r allyriadau carbon deuocsid y pen rhyw ychydig yn llai na'r ffigur ar gyfer Cymru, ac maent wedi gostwng rhwng 2005 a 2008 (o 9.7 i 9.0 ar gyfer Sir Gaerfyrddin o gymharu ag o 11.3 i 10.8 ar gyfer Cymru). Mae gan Gymru darged i ostwng allyriadau 3% y flwyddyn, ac mae angen i'r allyriadau y pen leihau'n sylweddol er mwyn atal tymheredd y byd rhag codi mwy na 2°C.

Mae'r ôl troed ecolegol yn mesur yr effaith a gawn ar yr amgylchedd naturiol. Rydym yn defnyddio adnoddau a chynnyrch yn ein bywydau o ddydd i ddydd. Mae angen tir i gynhyrchu'r adnoddau hyn ac i waredu'r gwastraff. Ystyr ôl troed ecolegol yw'r tir a'r môr 'cynhyrchiol' sy'n angenrheidiol er mwyn darparu ar gyfer y defnydd presennol o adnoddau a'r gwastraff a gynhyrchir. Ar ôl blynyddoedd o amrywioldeb cynyddodd ôl troed ecolegol Cymru o 4.2 hectar byd-eang y pen yn 1999 i 4.8 yn 2004. Fodd bynnag, ers hynny mae wedi disgyn i 4.4 hectar byd-eang yn 2006. Ein 'cyfran daear teg' yw 1.88 hectar byd-eang, ac felly mae ôl troed ecolegol o 4.4 yn dangos ein bod yn defnyddio mwy na gwerth 2 blaned o adnoddau.

Outcome 4: Carmarthenshire's communities and environment are sustainable

The following headline population indicators will measure how well the County is doing within this Outcome :-

CO2 emissions

Municipal Waste sent to landfill

Risk of flooding

Ecological footprint


River Quality

Number of Welsh speakers in the County


Data development required to measure what we need:-

Renewable energy: Transport:

Biodiversity



Source: Department of Energy & Climate change



Source: Stockholm Environment Institute and Global Footprint Network


Story behind the baselines

Carbon dioxide (CO₂) is produced when we burn fossil fuels (coal, oil, gas) to produce energy and heat. At the moment, CO₂ is being released about three times faster than it can be reabsorbed by the atmosphere, and is contributing to changes in our climate. In Carmarthenshire CO₂ emissions per person are slightly lower than the value for Wales and have decreased between 2005 and 2008 (9.7 to 9.0 for Carmarthenshire compared to 11.3 to 10.8 for Wales). Wales has a target to reduce emissions by 3% per annum, and per person emissions need to decrease significantly if we are to avoid global temperature increases of more than 2°C.

The Ecological Footprint (EF) provides a measure of the impact we impose on the natural environment. In our daily lives we consume resources and produce waste. Land is required to produce those resources and to dispose of the waste. The amount of 'productive' land and sea that is required to provide for this current resource consumption and waste production represents the ecological footprint. Following several years of variation, the ecological footprint of Wales increased from 4.2 global hectares per person in 1999 to 4.8 in 2004. However, it has since fallen to 4.4 in 2006. Our "fair earth share" is 1.88 gha, therefore an EF of 4.4 shows that we are using more than 2 planets' worth of resources.


Canlyniad 4: Bod cymunedau ac amgylchedd Sir Gaerfyrddin yn gynaliadwy

Canran y gwastraff sirol a anfonir i safleoedd tirlenwi



Ffynhonnell: Cyngor Sir Gaerfyrddin a Ystadegau Cenedlaethol

Canran yr Afonydd o Ansawdd Da




Ffynhonnell: Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru

Y stori tu ôl i'r ffigyrau


Mae'r gwastraff sirol a anfonir i safleoedd tirlenwi wedi lleihau 38% yn y 5 mlynedd diwethaf o 71,731 tonn yn 2006/7 i 44,535 tonn yn 2009/10, o gymharu â lleihad o 26% (1,253,105 i 931,428) yng Nghymru gyfan ar gyfer yr un cyfnod. Mae Sir Gaerfyrddin wedi cyrraedd y targed ailgylchu gofynnol o 40% a bennwyd gan Lywodraeth Cymru erbyn 2009/10, a bellach mae'r targed cenedlaethol hwn wedi cynyddu i 52% erbyn 2012/13. Rydym wedi ailgylchu 43% erbyn diwedd 2010/11. Os na fyddwn yn cyrraedd y targedau hyn bydd y Llywodraeth yn gosod dirwyon o £200 y tonn arnom, yn ogystal â dirwy o £200 y tonn o dan y Cynllun Lwfans Tirlenwi.

O dan ofynion y Gyfarwydddeb Fframwaith Dŵr mae'n rhaid inni sicrhau bod ein holl ddyfroedd yn cyrraedd safon amgylcheddol gyson h.y. statws ecolegol da. Mae gennym darged dros dro o sicrhau bod 36% o'r dyfroedd arwyneb yn cyrraedd statws ecolegol da neu safon well na hynny erbyn 2015. Ceir cyfanswm o 108 o afonydd yn Sir Gaerfyrddin, ac mae 35 (32.4%) ohonynt o ansawdd da. Mae 669 o afonydd yn Ardal Basn Afon Gogledd Cymru, ac o blith y rheiny mae 191 (28.6%) o ansawdd da ar hyn o bryd.

Outcome 4: Carmarthenshire’s communities and environment are sustainable



Source: Carmarthenshire County Council & National Statistics



Source: Environment Agency Wales


Story behind the baselines

The amount of tonnage of municipal waste sent to landfill in the last 5 years has decreased by 38% from 71,731 tonnes in 2006/7 to 44,535 in 2009/10, compared to a 26% (1,253,105 to 931,428) reduction in the whole of Wales for the same period. Carmarthenshire have met the required 2009/10 40% recycling target set by the Welsh Government, this national target has now increased to 52% for 2012/13. At the end of 2010/11, we have recycled 43%. There are penalties of £200/tonne imposed by the Government on us if these targets are missed in addition to the Landfill Allowance penalty of £200/tonne.

Under the requirements of the Water Framework Directive we are required to bring all of our waterbodies up to a consistent environmental standard, i.e. good ecological status (GES). We have an interim target of 36% of surface water bodies achieving GES or better by 2015. There are a total of 108 river water bodies in Carmarthenshire of which 35 (32.4%) are of a good or high standard, and 668 river water bodies in the Western Wales River Basin District of which 191 (28.6%) are currently of a good or high standard.


Canlyniad 4: Bod cymunedau ac amgylchedd Sir Gaerfyrddin yn gynaliadwy

Perygl o ran llifogydd yn Sir Gâr



Ffynhonnell: Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru

Nifer y siaradwyr Cymraeg yn y sir



Ffynhonnell: Cyfrifiad 2001

Y stori tu ôl i'r ffigyrau

Ymhlith goblygiadau hinsawdd sy'n newid y mae rhagor o lifogydd a chodiad yn lefel y môr, ac felly mae angen inni gynllunio ar gyfer yr effeithiau tebygol yma yn Sir Gaerfyrddin ac addasu ar eu cyfer.

Golyga 'dan risg' bod siawns o 0.1% (1 mewn 1000) bod llifogydd yn digwydd bob blwyddyn.


Mae Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru yn rhoi gwasanaeth Rhybuddion Llifogydd uniongyrchol i'r bobl sy'n byw mewn ardaloedd lle mae risg y bydd llifogydd yn digwydd. Gall y cyhoedd gofrestru er mwyn cael rhybuddion dros y ffôn, drwy neges destun, neu drwy e-bost.

Ffigyrau Cyfrifiad 2001 yw'r uchod. Mae Cyfrifiad 2011 newydd fod a bydd y canlyniadau ar gael ddiwedd 2012.

Cyfanswm y siaradwyr Cymraeg yn Sir Gaerfyrddin yn 2001 oedd 83802 (mwy na 50%), ac roedd 71717 ohonynt (43% o boblogaeth y sir) yn meddu ar un sgil neu fwy yn yr iaith h.y. darllen, ysgrifennu, neu ddeall. Mae'r ffigyrau hyn yn ffafriol iawn o'u cymharu â Chymru gyfan, gan taw dim ond 575,640 (20.5%) sy'n siaradwyr Cymraeg. Dangosa hyn pa mor gryf yw'r iaith Gymraeg yn Sir Gaerfyrddin.


Outcome 4: Carmarthenshire's communities and environment are sustainable

Risk of Flooding in Carmarthenshire



Source: Environment Agency Wales

Number of Welsh speakers in the County



Source: 2001 Census

Story behind the baselines

Increased flooding and rising sea levels are some of the consequences of a changing climate, we therefore need to plan for, and adapt to, the likely impacts here in Carmarthenshire.

At risk means there is a 0.1% (1 in 1000) chance of it occurring each year. Environment Agency Wales provides a free Flood Warnings Direct service to those people living in areas at risk of flooding. Members of the public can register to receive warnings by telephone, text or by e-mail.

These figures are from the 2001 Census, the 2011 Census has recently taken place and results will be available in late 2012.

The total number of Welsh speakers in Carmarthenshire during 2001 was 83802 (over 50%), of these Welsh speakers 71717 (43%) have one or more skill in the language i.e. read, write or understand. These figures are very favourable compared to Wales, where only 575,640 (20.5%) are Welsh speakers. This highlights how strong the Welsh language is in Carmarthenshire.

Canlyniad 5: Bod gan Sir Gaerfyrddin economi gryfach a mwy llewyrchus

Mae'r dangosyddion poblogaeth canlynol yn mesur perfformiad y sir o ran y Canlyniad hwn :-

Nifer y tai fforddiadwy a ddarperir

Incwm blyneddol cyfartalog cartrefi yn y sir



Canran y plant sy'n byw mewn aelwydydd di-waith

Cyfradd gyflogaeth

Canran y boblogaeth oedran gweithio sy'n cael budd-daliadau diweithdra allweddol

Busnesau sy'n dechrau ac yn cau

Enillion amser llawn wythnosol gros cyfartalog



Y stori tu ôl i'r ffigyrau

Mae hyn yn cynnwys cartrefi i'w prynu a'u rhentu lle mae dulliau ar waith i sicrhau bod y cartrefi hyn yn parhau i fod yn fforddiadwy o ran eu gwerthu a'u gosod yn y dyfodol. Gall hyn gael ei roi ar waith gan y cymdeithasau tai, gyda chymorth gan y Grant Tai Cymdeithasol, gan y Cyngor ar y cyd â datblygwyr preifat, neu drwy weithredu uniongyrchol gan y Cyngor, wrth inni geisio adeiladu tai Cyngor unwaith yn rhagor yn y dyfodol. Mae wastad cryn dipyn o amrywiaeth o flwyddyn i flwyddyn wrth i gynlluniau mawrion gael eu cwblhau, neu yn achos 2009 yn sgil bod rhagor o gyllid ar gael gan Lywodraeth Cymru yn y flwyddyn flaenorol.

Canran yw hon o'r bobl rhwng 16 a 64 oed sydd mewn gwaith, ac mae cwmp yn y ganran ar gyfer Sir Gaerfyrddin a Chymru yn 2008/9. Dangosa'r ystadegau hyn adferiad da yn 2009/10 yn Sir Gaerfyrddin o gymharu â gostyngiad pellach yng Nghymru.

Outcome 5: Carmarthenshire has a stronger and more prosperous economy

The following headline population indicators will measure how well the County is doing within this Outcome :-

Affordable housing provision

The average annual household income in the County


Children living in workless households

Employment rate


Percentage working age population in receipt of key out of work benefits

Business start up and closures

Average gross weekly full time earnings



Source: Carmarthenshire County Council



Source: National Statistics


Story behind the baselines

This includes homes to buy and to rent, where there are mechanisms in place to ensure these homes remain affordable for future sales or lettings. This can be delivered by housing associations, with support from Social Housing Grant, by the Council working in partnership with private developers, or by the direct action of the Council, as we aim to build Council houses again in the near future. There is always a lot of variation from year to year as large schemes are completed, or as in 2009 that extra funding was available from Welsh Government in the previous year.

This is a percentage of people aged 16-64 in employment, there is a dip in employment for Carmarthenshire and Wales in 2008/9. These statistics show a good recovery in 2009/10 in Carmarthenshire compared to a further decline in Wales.


Canlyniad 5: Bod gan Sir Gaerfyrddin economi gryfach a mwy llewyrchus

**Enillion amser llawn wythnosol
gros cyfartalog**




Ffynhonnell: Ystadegau Gwladol

**Incwm blynyddol cyfartalog
cartrefi yn y Sir**



Ffynhonnell: CACI Ltd

**Canran y boblogaeth oedran gweithio
sy'n cael budd-daliadau diweithdra
allweddol**



Ffynhonnell: Ystadegau Gwladol

Y stori tu ôl i'r ffigyrau

Seilir y data hwn ar arolwg blynyddol y trigolion ynghylch oriau ac enillion ar sail gweithwyr amser llawn. Roedd y bwlch rhwng ffigyrau Cymru a Sir Gaerfyrddin ar ei fwyaf yn 2009, sef £26 yr wythnos. Mae'r bwlch wedi lleihau i ychydig dros £10 ar gyfer 2010.


Mae incwm blynyddol cyfartalog cartrefi yn y sir wedi lleihau 2.9% rhwng 2009 a 2010. Mae'r lleihad hwn yn fwy na'r un a welwyd yng Nghymru gyfan (1.4%). Yn ôl data incwm cyfartalog PayCheck mae incwm y rhan fwyaf o'r wardiau (84%) wedi gostwng, a hynny'n amrywio rhwng ychydig o dan -0.2% yn y Bynea i ostyngiad sylweddol o 11.8% yn y Llanismel. Bu gostyngiad yn incwm blynyddol 49 o'r 58 o wardiau rhwng 2009 a 2010.

Seilir y ffigyrau hyn ar ganran y boblogaeth sy'n cael budd-daliadau diweithdra allweddol*, ac fe'u cyfrifiwyd gan ddefnyddio'r ystadegau ar gyfer dynion a menywod rhwng 16 a 64 oed. O ran y 5 mlynedd diwethaf roedd nifer y bobl a hawliai'r budd-daliadau hyn ar ei uchaf yn 2009, a hynny yn achos Sir Gaerfyrddin (18,010) a Chymru (307,420). Mae'r ffigyrau hyn wedi lleihau'n sylweddol yn 2010 i 16,960 (lleihad o 5.83%) yn Sir Gaerfyrddin, ac i 292,740 (lleihad o 4.77%) yng Nghymru.

*Lwfans Gofalwyr / Lwfans Byw i'r Anabl / Budd-dal Analluogrwydd / Cymhorthdal Incwm / Credyd Pensiwn / Lwfans Ceisio Gwaith / Lwfans Anabledd Difrifol / Budd-dal Gweddwon / Lwfans Cyflogaeth a Chymorth


Outcome 5: Carmarthenshire has a stronger and more prosperous economy

Average Gross Weekly Full-time Earnings




Source: National Statistics

Average annual household income



Source: CACI Ltd

% Working population in receipt of key out of work benefits



Source: National Statistics

Story behind the baselines

This data is based on an annual resident survey of hours and earnings based on full time workers. The gap between the Wales and Carmarthenshire figure was at it's highest in 2009 at £26 a week. This has reduced to just over £10 for 2010.


Carmarthenshire's average household income has decreased by 2.9% during 2009 to 2010. This is a higher decrease than that experienced by Wales (1.4%). Analysis of Pay Check average income data indicates that the majority of wards (84%) have decreases ranging from just under -0.2% in Bynea to a major decrease of 11.8% in St. Ishmael. A total of 49 out of 58 wards saw their annual income levels decline between 2009 and 2010.

These figures are based on the percentages of population receiving key out of work benefits*, and have been calculated using populations aged 16-64 for both men and women. In 2009 the number of people claiming these benefits was at their highest for the last 5 years in both Carmarthenshire (18,010) and Wales (307,420). The figures have greatly reduced in 2010 to 16,960 (5.83% reduction) in Carmarthenshire, and 292,740 (4.77% reduction) in Wales.

*Carers Allowance / Disability Living Allowance / Incapacity Benefit/ Income Support / Pension Credit / Job Seekers Allowance / Severe Disablement Allowance / Widows Benefit / Employment & Support Allowance


Canlyniad 5: Bod gan Sir Gaerfyrddin economi gryfach a mwy llewyrchus

Canran y plant sy'n byw mewn aelwydydd di-waith



Ffynhonnell: Ystadegau Gwladol

Nifer y busnesau sy'n weithredol/sy'n dechrau/sy'n cau



Ffynhonnell: Ystadegau Gwladol

Y stori tu ôl i'r ffigyrau


Cesglir y wybodaeth hon drwy'r Arolwg Poblogaeth Blynnyddol, sy'n arolwg sampl blynnyddol o'r aelwydydd sy'n byw mewn cyfeiriadau preifat yn y DU. Ar gyfer Cymru mae'r data bellach wedi ei seilio ar sampl fwy na'r blynnyddoedd a fu, sef bron 20,000 o aelwydydd (tua 350% yn fwy). Mae Sir Gaerfyrddin wedi bod yn is neu ar yr un lefel â chyfartaledd Cymru am y ddwy flynedd diwethaf, ond mae'r ffigyrau ar gyfer 2009 wedi cynyddu'n sylweddol o'u cymharu â rhai Cymru, ac yn enwedig o'u cymharu â ffigyrau'r DU, sydd wedi aros yn eithaf sefydlog dros y tair blynedd diwethaf.

Diffinnir busnesau gweithredol yn 2009 fel y rheiny sydd â throsiant neu sy'n cyflogi pobl rhwng Hydref 2008 a Hydref 2009, ar sail data a gymerwyd ym mis Mai 2010.

Mae'n rhaid bod y busnesau wedi eu cofrestru ar gyfer Treth ar Werth (TAW) neu ar gyfer Talu Wrth Ennill. Gall rhai busnesau ddechrau ond o bosibl beidio â chofrestru ar gyfer TAW hyd cryn amser ar ôl hynny. Hefyd gall rhai busnesau sy'n tynnu eu hunain oddi ar y gofrestr aros mewn busnes, ond gyda throsiant sydd islaw'r trothwy TAW. Felly er bod y data a gyflwynir yn adlewyrchiad cywir o nifer y busnesau sy'n cofrestru neu sy'n datgofrestru ar gyfer TAW neu Dalu wrth Ennill, gall ond rhoi amcangyfrifiad o union nifer y busnesau sy'n dechrau ac sy'n cau mewn ardal benodol.


Outcome 5: Carmarthenshire has a stronger and more prosperous economy

Children living in workless households



Source: National Statistics

Number of Active Business/Start-ups and Closures



Source: National Statistics

Story behind the baselines

This information is collected via the Annual Population Survey, which is an annual sample survey of households living at private addresses in the UK. For Wales, the data is now based on an enhanced sample approaching 20,000 households (around 350% larger) compared to previous years.

Carmarthenshire has been below or equal to the Wales average for the last two years, but the 2009 figures have increased dramatically compared to Wales and especially compared to the UK figures, which seem to be fairly static for the last three years.

Active enterprises in 2009 are defined as those with turnover or employment between October 2008 and October 2009 based on an extract of data taken in May 2010.

Enterprises have to be registered for VAT or PAYE. Some businesses will start-up but may not register for VAT until some time later, while some businesses de-registering may remain in business but with a turnover below the VAT threshold. Thus whilst the data presented are an accurate reflection of the numbers of businesses which register or de-register for VAT or PAYE, they can only represent an approximate estimate of the actual number of business start-ups or closures in a given area.